

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

**MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD Y PENTREF,
BETWS YN RHOS, AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, AWST 9fed, 2021.**

1. **CROESO** - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **YN BRESENNOL** - y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; John D. Roberts; Tudur W. Jones; Gwyndaf O. Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.
3. **YMDDIHEURIADAU** - yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans, a John Evans.
4. **DATGANIAD O DDIDDORDEB** -

Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natut unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hymny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod ef yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gall ateb cwestiynau "n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau. Fe ddatgelodd y Cynghorwyr Irwedd Griffiths a John D.Roberts ddiddordeb yn eitem 8.21/15(iv), eitem ychwanegol a ddycpwyd gerbron y Cyngor. Doedden nhw ddim yn bwriadau gadael y cyfarfod, ond ni fyddent yn gwneud sylw ar y drafodaeth.

5. **MUNUDAU**

PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 7fed, 2021, a munudau'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar Orffennaf 5ed, 2021.

6. **MATERION YN CODI - DIM.**

7. **CYLLID - PENDERFYNWYD NODI** adroddiadau'r banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Fehefin 21ain, 2021 -

Cyfrif cymunedol£7555.65

Cyfrif busnes£5551.18

Hefyd ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Orffennaf 21ain, 2021

Cyfrif cymunedol.....£6813.26

Cyfrif busnes£5551.18

**I GYMERADWYO'R FANTOLEN AR GYFER YR UN CYFNODAU.
CYTUNWYD ARNI GAN BAWB.**

8. GOHEBIAETH

8.21/8(i) Ymgynghoriad ar gymwysterau a rheolaethau Clerc y Gymuned. Fe fyddai'r aelodau'n cysylltu gyda'r Clerc pe byddai ganddynt sylwadau i'w gwneud.

8.21/8(ii) Cyhoeddiad am gyfarfod ynghylch y goleuadau Nadolig. Dywedodd y Clerc fod y cyfarfod wedi ei gynnal fel y gallai'r Cynghorau Cymuned gytuno ar contractwyr i osod goleuadau Nadolig, ac na fyddai hynny'n effeithio ar y Cyngor Cymuned gan fod gennym ni gytundeb gydag Adran Briffyrdd y Cyngor Sir ar gyfer gosod y goleuadau.

8.21/8(iii) Cyhoeddiad am gryfhau Pont Dolwen. NODWYD hynny. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Lloyd ofalu bod arwyddio addas yn cael eu harddangos ar gyfer modurwyr fel na fyddent yn cael eu camarwain gyda chau'r ffordd.

8.21/8(iv) Cais gan Darren Millar AS i arddangos poster cysylltu. CYTUNWYD i hynny. Dywedodd y Clerc y byddai'r posteri'n cael eu harddangos.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - PENDERFYNWYD NODI'r taliadau a dderbyniwyd.

8.21/9(i) Llog y banc£0.14

8.21/8(ii) Ad-daliad TAW ar gyfer 20/21.....£164.56

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU 'r holl anfonebau a biliau a restrir isod:-

8.21/10(i) HMRC.....£ 71.81 - AS

8.21/10(ii) Cyflog y Clerc.....£ 287.23 - AS

8.21/10(iii) Cyfieithu (Hamner y gost)£ 11.00 - Siec 200115

8.21/10(iv) Torchau coffa£ 50.00 - Siec 200116

11. GRANTIAU

Dim.

12. CYNLLUNIO

8.21/12(i) 0/48681 Cadw at, a defnyddio carafan sefydlog ar gyfer gosod gwyliau yn Oak Tree Farm, Ffordd Ffynhonnau, Rhyd-y-Foel. Ms Enfys Parry.

PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD. Ond gofynnodd yr aelodau a fyddai Swyddogion Cynllunio'n edrych ar eu polisïau ynghylch hyn.

8.21/12(ii) 0/48688 Cais llawn am leoli ystablau ar gyfer defnydd preifat yn unig , yn cynnwys 4 ystabl ynghyd â lle ar gyfer cyfrwyo a bwydo, ynghyd â gosod llawr caled a thirlunio cysylltiedig at y datblygiad ar dir gyfochr â Ffordd y Mynydd, Betws yn Rhos. Ms Karena Taylor. **PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU AM Y RHESYMAU A OSODIR ISOD:-**

1. Maint a graddfa'r ystablau.
2. Mae'r datblygiad mewn tir gwledig agored.
3. Nid yw'r datblygiad o angen amaethyddol.
4. Gofynnodd yr aelodau a oedd hyn yn groes i bolisïau cynllunio TOU 2 a 4.

8.21/12(iii) 0/48699 Adnewyddu ac ail-lunio adeilad cofrestredig graddfa 2 i lunio annedd cychwynnol. Trwsio ac ychwanegu 3 golau cynilo, trwsio gwteri to a pheipiau landar , trwsio neu newid ffenestri fel am fel, newid drysau allan i ddrysau ystablau rhannol wydrau, tynnu ymaith wyneb sment ac ail-wynebu gyda wyneb calch. Ychwanegu rhaniadau i fyny'r grisïau i greu dwy lofft ac ystafell ymolchi. I lawr y grisïau creu ystafell aml-bwrpas a chegin. Gosod gwaith plymio a thrydan. Tynnu ymaith waith plaster sâl o'r ystafelloedd mewnol ac ail wynebu ble bo'r angen (Caniatâd adeilad cofrestredig) ym Methgeth, Ffordd Cil Llidiart, Betws yn Rhos. Mr Neil Cowan. **PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.**

8.21/12(iv) 0/48762 Annedd arfaethedig dwy lofft, deulawr ar dir gyferbyn â Fforddilas, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn. Mr Mark Milne. **PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.**

13. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL -

8.21/13(i) Cyhoeddiad am hawliau etholwyr ynghylch yr Archwiliad Cyllidol i'w arddangos ar Awst 6ed, 2021. Dywedodd y Clerc fod hyn wedi ei wneud.

14. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd fod hysbysiad wedi ei dderbyn ar gais fferm wynt o 15 twrbein i'w chodi rhwng Llanfairtalhaiarn, Llansannan a Llangernyw. Roedd o'n bryderus gan fod hon yn Ardal Tirlun Arbennig y gellid ei gweld o'r Parc Cenedlaethol. Fe fyddai'r twrbeiniau hyd at 200 medr o uchder. Fe fyddai'r fynedfa o'r de, ac fe ofynnodd a allai Llanrwst ymdopi gyda maint a graddfa'r cerbydau ynghyd â'u llwythi. Eglurodd y Cynghorydd Lloyd nad oedd ceisiadau o'r maint hyn bellach yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Sir, ac y penderfynid yng Nghaerdydd. **PENDERFYNWYD gwahodd swyddogion o gwmini'r fferm wynt ynghyd â swyddogio cynllunio Conwy i ddod i' gyfarfod y Cyngor ym mis Medi**

15. UNRHYW FATERION ERAILL

8.21/15(i) Ymddiswyddiad y Clerc. Y Clerc i orffen ar Ragfyr 10fed, 2021. Fe NODODD yr aelodau hyn, gan ddiolch i'r Clerc am ei wasanaeth.

8.21/15(ii) Cyhoeddiadau ceisiadau am grant i'w harddangos. Dywedodd y Clerc fod hyn wedi digwydd.

8.21/15(iii) Dogfennaeth i'w harchifo. Roedd y Clerc wedi bod yn Archifau'r Sir ond doedd dim swyddogion yn gweithio'r diwrnod hwnnw. Fe adawyd yr eitemau gyda'r llyfrgellydd ar ddyletswydd. Y rheiny oedd:-

1. ADRODDIAD O GYFRIFON WEDI EI ARCHWILIO AR GYFER 2012 - 2013 ANFONEBAU (AMRYWIOL) o 2021 - 2013
2. TAFLENNI CYMODI BLYNYDDOL ar gyfer 2012 - 2013
3. MUN UDAU o EBRILL 2015 i Fawrth 2016

8.21/15(iv) Gofynnodd yr aelodau i'r Clerc i ysgrifennu at Mr a Mrs Roberts o 6, Bod Elian, Llanelian i ddiolch am y gwaith ardderchog yr oedden nhw wedi ei wneud yn plannu'r cynwysyddion blodau yn y pentref.

8.21/15(v) Roedd damwain arall wedi digwydd ym Mryn Person. Roedd yr aelodau'n dal yn pryderu nad oedd yr arwyddion yn ddigonol, ac mai mater o amser oedd hi cyn y byddai rhywun yn cael ei ladd.

8.21/15(vi) Mae'r arwydd ffordd ger Capel Bach wedi ei ddifrodi.

8.21/15(vii) Roedd yr aelodau'n eithriadol o bryderus nad oedd y gwrychoedd yn yr ardaloedd gwledig yn cael eu torri. Roedd hyn yn golygu ei bod yn beryglus i fodurwyr ddod allan o rai ffyrdd yn y sir. Roedd hefyd yn golygu bod cerddwyr yn cael eu gwthio allan i'r lonydd culion, gan ei gwneud yn beryglus iddyn nhw.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.40y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....

